O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2732 (Cy. 294)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pwllan, i'r De o Landinam, Powys) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2011

Wedi'i wneud	*14 Tachwedd 2011*
Yn dod i rym	*28 Tachwedd 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd y Drenewydd – Aberystwyth (A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd gael ei gyfyngu neu ei wahardd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Tachwedd 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pwllan, i'r De o Landinam, Powys) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2011.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08.00 o'r gloch ar 28 Tachwedd 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd ym Mhwllan, i'r de o Landinam, yn Sir Powys sy'n ymestyn o bwynt canol y fynedfa i'r eiddo o'r enw Neuadd Fach hyd at bwynt 450 metr i'r gogledd o bwynt canol y fynedfa i'r eiddo o'r enw Lower Penrhuddlan.